



Tasg 2

Hoff fwyd

Darllenwch y llythyr yma.

Plas Teg
12 Ffordd y Farchnad
Llandudno

Hydref 13

Annwyl Ciwb

Yoma ydw i a dw i'n byw yn Llandudno. Dw i'n 15 oed a dw i'n hoffi dawnsio a gwranddo ar gerddoriaeth.

Dw i'n hoffi mynd allan gyda ffrindiau hefyd. Ar ddydd Sadwrn, rydyn ni'n mynd i Landudno ac rydyn ni'n cael têt-awê ar y prom – pizza, pysgod a sglodion, ci poeth neu byrger. Dydy'r bwyd ddim yn iach iawn ond mae o'n flasus iawn. Weithiau, rydyn ni'n cael brechdanau brown – bwyd iach.

Dw i'n dod o China ac mae bwyd China'n wych. Fy hoff fwyd i ydy *chow mein* achos mae'n flasus iawn. Mae Dad yn gwneud *chow mein* bendigedig!

Hwyl fawr

Yoma

Ysgrifennwch lythyr i **Ciwb** am eich hoff fwyd chi.

